**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1987 (Cy. 297) (C. 123)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015

*Gwnaed - - - - 2 Rhagfyr 2015*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 58(4) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004(**2**);

ystyr "Deddf 2015" ("*the 2015 Act*") yw Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 4 Ionawr 2016

**2.** Y diwrnod penodedig i adran 3 o Ddeddf 2015 ddod i rym i'r graddau y mae'n rhoi adrannau newydd 60, 60A a 60B yn lle adran 60 o Ddeddf 2004 yw 4 Ionawr 2016.

**3.** Y diwrnod penodedig i'r adrannau a ganlyn o Ddeddf 2015 ddod i rym i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym yw 4 Ionawr 2016—

(a) adran 11;

(b) adran 12;

(c) adran 13;

(d) adran 14; ac

(e) adran 31.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 16 Mawrth 2016

**4.** Y diwrnod penodedig i'r adrannau a ganlyn o Ddeddf 2015 ddod i rym i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym yw 16 Mawrth 2016—

(**1**) 2015 dccc 4.
(**2**) 2004 p. 5.

(a) adran 15(1) a (2);

(b) adran 40;

(c) adran 41; a

(d) adran 42.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2016**

**5.** Y diwrnod penodedig i'r adrannau a ganlyn o Ddeddf 2015 ddod i rym yw 1 Ebrill 2016—

(a) adran 2; a

(b) adran 15(3).

**Darpariaethau trosiannol ac arbed**

**6.** Nid yw adrannau 2 ac 11(3) o Ddeddf 2015 yn gymwys i gynllun datblygu lleol sydd wedi ei gyflwyno i'w archwilio yn unol â Rhan 6 o Ddeddf 2004 pan ddaw'r adrannau i rym. Mae'r adrannau'n gymwys i gynllun o'r fath ar ôl iddo gael ei fabwysiadu neu ei gymeradwyo yn unol â Rhan 6 o Ddeddf 2004.

**7.** Mae adran 60 o Ddeddf 2004 yn parhau i gael effaith fel pe na bai adran 3 o Ddeddf 2015 wedi ei chychwyn gan erthygl 2.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

2 Rhagfyr 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r ail Orchymyn Cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("Deddf 2015").

Mae erthyglau 2 a 3 o'r Gorchymyn yn dwyn yr adrannau a ganlyn o Ddeddf 2015 i rym ar 4 Ionawr 2016:

adran 3 (llunio ac adolygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru) i'r graddau y mae'n rhoi adrannau newydd 60, 60A a 60B yn lle adran 60 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004;

adran 11 (y Gymraeg);

adran 12 (y cyfnod y bydd cynllun datblygu lleol yn cael effaith);

adran 13 (tynnu cynllun datblygu lleol yn ôl);

adran 14 (pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod cynllun datblygu lleol yn cael ei lunio ar y cyd); ac

adran 31 (y Gymraeg).

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn yn dwyn yr adrannau a ganlyn o Ddeddf 2015 i rym ar 16 Mawrth 2016:

adran 15(1) a (2) (byrddau cydgynllunio: swyddogaethau sy'n ymwneud ag arolygon a chynlluniau datblygu lleol);

adran 40 (byrddau cydgynllunio i fod yn awdurdodau sylweddau peryglus);

adran 41 (pŵer i wneud darpariaeth sy'n galluogi byrddau cydgynllunio i arfer swyddogaethau rheoli datblygu mewn Parciau Cenedlaethol); ac

adran 42 (byrddau cydgynllunio: pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol ac atodol).

Mae erthygl 5 o'r Gorchymyn yn dwyn yr adrannau a ganlyn o Ddeddf 2015 i rym ar 1 Ebrill 2016:

adran 2 (datblygu cynaliadwy); ac

adran 15(3) (byrddau cydgynllunio: swyddogaethau sy'n ymwneud ag arolygon a chynlluniau datblygu lleol).

Mae erthyglau 6 a 7 o'r Gorchymyn yn nodi'r trefniadau trosiannol ac arbed sy'n gymwys i gychwyn y darpariaethau yn erthyglau 2, 3(a) a 5(a).

## NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 4 | 5 Hydref 2015 | O.S. 2015/1736<br><br>(Cy. 237) |

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| | | (C. 106) |
| Rhan 1 o Atodlen 1 | 5 Hydref 2015 | O.S. 2015/1736<br><br>(Cy. 237)<br><br>(C. 106) |

*Gweler* adran 58(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar y diwrnod pan gafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol ac adran 58(2) ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym 2 fis ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol.